# Mynd o nerth i nerth

Ar ei ben-blwydd yn naw oed, cafodd Nathan Stephens bâr o dreinyrs fel anrheg. Gwisgodd y treinyrs newydd ac yna aeth gyda'i frawd, ei gefnder a'i ffrindiau i chwarae ger y rheilffordd. Gwelodd drên cario nwyddau yn mynd heibio'n araf a phenderfynodd neidio i ben un o'r treilyrs. Llithrodd wrth geisio gwneud hynny ac aeth ei goesau o dan y trên. Collodd un o'i goesau'n llwyr. Tynnodd ei ffrindiau e oddi ar y cledrau'n anymwybodol. Rhedodd ei frawd a'i gefnder i chwilio am help.

Mae Nathan yn cofio rhannau o'r digwyddiad. Mae e'n cofio dihuno mewn llwyn gerllaw a gweld ei dreinyrs ar y cledrau. Dyna pryd y sylweddolodd fod rhywbeth mawr wedi digwydd. Mae'n cofio cael ei gymryd i'r ysbyty mewn hofrennydd a meddwl, "Dw i'n cael reid mewn hofrennydd ar fy mhen-blwydd!"

Yn yr ysbyty, bu'n rhaid torri'r goes dde i ffwrdd o dan y pen-glin. Yna, bu'n rhaid iddo aros yn yr uned gofal dwys am bythefnos. Tra oedd e yn yr ysbyty daeth rhywun i siarad gydag e am chwaraeon Paralympaidd, gan ei fod yn mwynhau chwaraeon cymaint. Ar ôl wyth wythnos, gadawodd yr ysbyty mewn cadair olwyn.

Roedd ei ddiddordeb mewn chwaraeon yn dal yn gryf, a sylweddolodd, ar ôl ychydig, ei fod e'n dal i allu chwarae pêl-droed - yn y gôl. Fel gôl-geidwad, byddai'n dod allan o'i gadair ac yn deifio hwnt ac yma o fewn y gôl er mwyn ceisio safio'r bêl. Yna, dechreuodd chwarae criced i dîm yr ysgol hefyd, gan gadw'r wiced. Byddai'n eistedd tu ôl i'r wiced, yn mynd ar ôl y bêl ac yn ei thaflu. Dyna pryd y sylweddolodd ei fod e'n gallu taflu'n bell.

Yn ogystal, byddai'n mynd lawr i Ganolfan Sglefrio Iâ Caerdydd dair gwaith yr wythnos a byddai'n gwthio slediau iâ o gwmpas yr iâ. Byddai'n nofio'n rheolaidd a dechreuodd chwarae tenis mewn cadair olwyn hefyd.

Yna, cafodd ei 'ddarganfod' gan Anthony Hughes, hyfforddwr o Chwaraeon Anabledd Cymru. Roedd e'n gallu gweld bod gan Nathan ddawn naturiol fel athletwr a bod ganddo agwedd gadarnhaol hefyd. O dan ei arweiniad, bu Nathan yn ymarfer yn galed a dechreuodd gystadlu.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf o gystadlu, enillodd fedalau aur am daflu'r pwysau, y ddisgen a'r waywffon yn y pencampwriaethau cenedlaethol.



Erbyn hyn, mae Nathan yn bencampwr enwog iawn. Mae wedi ennill nifer o fedalau aur am daflu'r pwysau, y ddisgen a'r waywffon, ac yng Ngemau Paralympaidd y gaeaf yn Turin yn 2006, bu'n chwarae yn nhîm hoci sled Prydain hefyd. Bu'n cystadlu yng Ngemau Paralympaidd Beijing, lle daeth yn 8fed am daflu'r pwysau, yn 4ydd am daflu'r waywffon ac yn 11eg am daflu'r ddisgen. Ers hynny, mae wedi ennill medalau aur yng Ngemau Ieuenctid y Byd yn 2009 a 2010. Ym mis Ionawr 2011, enillodd gystadleuaeth taflu'r waywffon ym Mhencampwriaeth Athletau'r Byd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol (IPC) yn Seland Newydd. Ym mis Awst yr un flwyddyn, torrodd Record y Byd am daflu'r waywffon drwy ei thaflu am bellter o 41.37 metr.

Mewn cyfweliad yn ddiweddar, dywedodd Nathan mai'r peth pwysig mae e wedi ei ddysgu ers y ddamwain ac wrth gystadlu yw pa mor bwysig yw peidio byth â rhoi'r ffidil yn y to. Rhaid canolbwyntio a rhaid gwneud eich gorau bob amser.

Mae Nathan yn sicr yn mynd o nerth a nerth. Mae ganddo ddyfodol disglair iawn o'i flaen!